**Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Mawrth 2000 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1 |
| **Yn bresennol:** | |
| **Aelodau** | Rhodri Morgan,Cadeirydd Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Mick Bates, Democratiaid Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn |
| | Nicholas Bourne, Ceidwadwr Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | PJocelyn Davies, Plaid Cymru Dwyrain De Cymru |
| | Val Feld, Llafu  Dwyrain Abertawe |
| | Alun MichaelLlafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Jonathan Morgan,  Ceidwadwr,  Canol De Cymru |
| | Alun Pugh , Llafur,  Gorllewin Clwyd |
| | Rhodri Glyn Thomas, Plaid Cymru,  Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr |
| | Phil Williams, Plaid Cymru, Dwyrain De Cymru |
| | Yr Athro Rose D'Sa ECOSOC |
| | George WrightECOSOC |
| | Brian Smith Pwyllgor y Rhanbarthau |
| | Jonathan Evans ASE |
| | Eluned Morgan ASE |
| **Swyddogion** | |

Hugh Rawlings, Pennaeth, Adran Materion Ewropeaidd

Caroline Turner, Adran Materion Ewropeaidd

Gary Davies, Pennaeth yr Adran Datblygu Diwydianno

Ifona Deeley, Adran Datblygu Diwydiannol

Andrew George Clerc

Julie BraggDirprwy Glerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther, Glenys Kinnock ASE, Eurig Wyn ASE, a Jill Evans ASE.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EUR-01-00(p.1W)**

1.1 Roedd y Cadeirydd yn dymuno tanlinellu un eitem arbennig yn ei adroddiad: ymweliad y Pwyllgor â Brwsel ar 2 a 3 Mawrth. Dywedodd fod yr ymweliad wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd pob Aelod o'r Pwyllgor wedi cymryd rhan ac er bod yr ymweliad wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor yn bennaf, cynhaliwyd rhai cyfarfodydd ychwanegol hefyd gyda Swyddogion y Comisiwnynglþn ag arian Amcan Un, ac yn y Gyfarwyddiaeth Gystadleuaeth.

1.2 Hefyd, roedd yr ymweliad wedi galluogi'r Pwyllgor i gyflwyno cais ffurfiol y Cynulliad i ymaelodi â Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) a thanlinellu agoriad Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel cyn bo hir. Byddai Des Clifford yn bennaeth ar y Swyddfa ac yn dechrau yn ei swydd ym mis Ebrill. Roedd Swyddog Gweithredol i'w gefnogi'n cael ei ddewis ar hyn o bryd. Byddai'r ddau aelod o staff y Cynulliad yn gweithio yn yr un adeilad â Chanolfan Ewropeaidd Cymru a byddent yn gallu gweithio yn swyddfeydd Cynrychiolaeth Barhaol y DU fel diplomyddion achrededig llawn. Wrth wneud y trefniadau hyn, ystyriwyd dull gweithredu Senedd yr Alban i sefydlu swyddfa ar wahân. Teimlwyd, fodd bynnag, y byddai'r Cynulliad yn elwa'n fawr o'i bartneriaeth â Chanolfan Ewropeaidd Cymru.

1.3 Dywedodd Catherine Eva wrth y Pwyllgor fod yr Ysgrifennydd Busnes a swyddogion eraill, ar ôl yr ymweliad, wedi siarad mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar 6 Mawrth er mwyn briffio Cynrychiolaeth Barhaol y DU a swyddogion y Comisiwn ynglþn â goblygiadau ac effaith datganoli yn y DU. Roedd yn bwysig i'r Comisiwn gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Teimlai George Wright y byddai aelodaeth y Cynulliad yn y Ganolfan yn bwysig er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Hefyd, byddai gan Gymru broffil amlycach ym Mrwsel oherwydd ei safle newydd. Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynglþn â pha mor rhwydd y gallai pobl anabl ddefnyddio'r adeilad. Esboniodd Mr Wright fod y Ganolfan yn ymwybodol o'r trafferthion posibl ac yn bwriadu gwneud rhywbeth yn eu cylch.

1.4 Newidiwyd cwrs y drafodaeth i drafod cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r ffaith bod y Pwyllgor cyfatebol yn Senedd yr Alban yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth a chyfarwyddebau sy'n dod o'r UE. Cydnabuwyd bod yr Albanwyr yn cael problemau wrth geisio delio â holl ddeddfwriaeth yr UE o fewn un Pwyllgor. Teimlwyd bod system y Cynulliad, a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 1999, o ganiatáu i Ysgrifenyddion unigol y Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc cyfatebol ddelio â'r ddeddfwriaeth ac unrhyw ddatblygiadau polisi sy'n berthnasol i'w maes, yn ffordd mwy effeithiol o ddelio â hyn. Fodd bynnag, mynegwyd peth pryder ynglþn â'r posibilrwydd y gallai rhywfaint o ddeddfwriaeth yr UE gael ei anwybyddu oherwydd nad oedd yn cael ei gynnwys o fewn cylch gorchwyl unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad.

1.5 Credai'r Cadeirydd ei bod yn addas i'r Pwyllgor gadw at ei swyddogaeth strategol bresennol tra bod Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc yn delio ag agweddau penodol o bolisïau, yn enwedig gyda materion pwysig sydd ar y gorwel, megis ehangu'r UE. Fodd bynnag, roedd yn fodlon newid y cylch gorchwyl a'i wneud yn debycach i fodel yr Alban os oedd yr Aelodau o'r farn mai dyma'r ffordd gywir ymlaen, er ei fod yn gyndyn o wneud hynny. Roedd angen cofio y byddai'r Pwyllgor yn monitro sut y byddai Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc yn gweithredu deddfwriaeth yr UE; a hefyd, bod llawer o ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r DU

ac ni fyddai'n gynhyrchiol eu hystyried o ran Cymru'n unig. Gofynnwyd i swyddogion lunio papur arall ynglþn â gweithredu polisïau a chyfarwyddebau'r UE ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor a chytunodd yr aelodau y dylid trafod swyddogaeth y Pwyllgor unwaith eto bryd hynny.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cysylltiadau Rhyngwladol a Phroffil Cymru**
**Papur: EUR-01-00(p.2W)**

2.1 Cyflwynodd Gary Davies ei bapur yn amlinellu hanes y Swyddfa Gymreig a sut mae'r Cynulliad yn datblygu cysylltiadau gyda rhanbarthau tramor. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cynnal y cysylltiadau hyn, ac yn enwedig gyda Siapan, er gwaethaf y ffaith y gallai'r pwyslais fod wedi newid o ddatblygu economaidd yn unig. Cydnabuwyd bod y manteision a fyddai'r math hon o raglen yn eu creu, yn aml yn rhai na ellir eu mesur er y gallai unrhyw berthynas a fyddai'n codi proffil Cymru fod yn bwysig yn yr hir dymor.

2.2 Teimlai'r aelodau na ddylai partneriaethau gael eu llunio â rhanbarthau Ewropeaidd yn unig, ond y dylid eu hestyn i gynnwys partneriaid ym mhob cwr o'r byd. Dylai datblygu gweithgareddau o'r fath fod yn haws yn awr oherwydd bodolaeth y Cynulliad. Roedd safbwyntiau'n amrywio ynglþn ag a ddylid ffurfio partneriaeth gyda'r rhai hynny a allai ddod â manteision economaidd i Gymru yn y dyfodol; o fewn y gwledydd hynny sy'n dymuno ymaelodi â'r UE yn y dyfodol; neu a ddylai partneriaethau fod yn rhai mwy dyngarol, fel y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei groesawu, megis Lesotho.

2.3 Gan ateb cwestiwn, esboniodd Gary Davies fod gan yr Uned Cysylltiadau Rhyngwladol bedwar aelod staff ar hyn o bryd. Ei chyllideb ar gyfer gweithgareddau gyda phartneriaid presennol yn 2000-2001 oedd £300,000. Byddai cynyddu'r gweithgareddau gyda phartneriaid presennol neu sefydlu cytundebau newydd yn rhoi baich sylweddol ar y tîm presennol ac ar y Cynulliad hefyd, a fyddai'n gorfod cynnal y gweithgareddau dilynol.

2.4 Roedd gweithgareddau presennol i godi proffil Cymru yn cynnwys datblygu pecyn hyrwyddo mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill megis Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Roedd yn cynnwys CD-Rom rhyngweithiol gyda'r newyddion diweddaraf am Gymru; pecyn gwybodaeth i newyddiadurwyr sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl am Gymru a'r Cynulliad; a phecyn gwybodaeth mwy cyffredinol ar gyfer ymwelwyr ac i'w ddosbarthu dramor. Byddai llyfr clawr caled yn cael ei gynhyrchu hefyd gan ddefnyddio'r un deunydd sylfaenol. Byddai'r CD yn cael ei dosbarthu i Lysgenadaethau Prydeinig, Cyngor Prydain a chymdeithasau Cymreig dramor. Roedd disgwyl i'r pecyn cyfan fod ar gael ym mis Ebrill.

**Eitem 3 ar yr Agenda; INTERREG**
**Papur: EUR-01-00(p.3W)**

3.1 Cyflwynwyd y papur hwn er gwybodaeth i'r Aelodau oherwydd nad oedd y canllawiau manwl ynglþn â'r rhaglen INTERREG newydd wedi cael eu cytuno eto. Byddai papurau manylach yn cael eu darparu i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Elfennau pwysig y rhaglen i Gymru oedd Elfen A (a fyddai'n datblygu'r rhaglen bresennol rhwng Cymru ac Iwerddon) ac Elfen B a fyddai'n rhoi'r cyfle i Abertawe a Cork gydweithio y tu allan i'r rhaglen bresennol. Byddai'r arian ar gyfer y rhaglen hon yn ychwanegol at y grantiau presennol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Byddai'r ffordd o gyfrifo cyfran yr arian i Gymru yn cael ei wneud gan y DU a byddai angen darpariaeth PES. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Caroline Turner y byddai ardaloedd cyfagos yn gymwys ar ôl iddynt gael eu clustnodi yn y Ddogfen Rhaglennu Sengl.

3.2 Nododd y Cadeirydd fod y rhaglen INTERREG flaenorol rhwng Cymru ac Iwerddon wedi bod yn llwyddiannus iawn er gwaethaf y disgwyl oherwydd mai bwriad y rhaglen oedd bod yn berthnasol i ardaloedd tirgaeëdig yn unig. Roedd sawl un a fu'n rhan o'r rhaglen gyntaf wedi gadael y rhaglen erbyn hyn, ond roedd Cymru ac Iwerddon yn mynd ymlaen i’r ail raglen oherwydd eu llwyddiant blaenorol.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Arolwg Polisi – adroddiad ar gynnydd y strategaeth waith**
**Papur: EUR-01-00(p.4W)**

4.1 Darparwyd adroddiad cynnydd byr ar gyfer y Pwyllgor ynglþn â'r strategaeth waith. Cytunwyd eisoes y dylid darparu papur mwy manwl ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Blaen-raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd**
**Papur: EUR-01-00(p.5W)**

5.1 Cyflwynodd Catherine Eva y papur hwn a oedd yn amlinellu'r gwaith yr oedd y Comisiwn yn gobeithio ei gyflawni yn ystod y misoedd i ddod. Hyrwyddo dulliau newydd o lywodraethu fyddai un o'r meysydd pwysicaf y byddai'n eu hystyried. Byddai hyn yn cynnwys elfennau megis maint Pwyllgor y Rhanbarthau, aelodaeth ei bwyllgorau a sut yr oedd cynrychiolwyr unigol yn cael eu dewis. Mae cynrychiolwyr o Gymru'n cael eu henwebu gan Lywodraeth Prydain ar hyn o bryd ond byddai angen ystyried hyn.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Papur Gwyn Drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar Ddiwygio’r Drefn Weinyddol**
**Papur: EUR-01-00(p.6W)**

6.1 Y Comisiynydd Kinnock oedd wedi llunio'r Papur Gwyn. Cytunwyd ar y diwygiadau a gynigiwyd gan y Comisiwn ar 1 Mawrth a byddent yn awr yn cael eu gweithredu. Byddai'r newidiadau'n rhan o'r rhaglen foderneiddio fwyaf dwys ers ffurfio'r Comisiwn ddeugain mlynedd yn ôl ac roeddent yn effeithio ar bob sefydliad Ewropeaidd. Gallai'r newidiadau wneud llawer i ddileu posibilrwydd gordaliadau a thwyll.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Blaenoriaethau Llywyddiaeth Portiwgal**
**Papur: EUR-01-00(p.7W)**

7.1 Blaenoriaeth Llywyddiaeth Portiwgal yw'r Gynhadledd Ryng-Lywodraethol a gychwynnodd bythefnos yn ôl. Roedd y Gynhadledd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwygiadau er mwyn paratoi ar gyfer ehangu'r UE. Un o uchafbwyntiau'r Llywyddiaeth fydd yr uwchgynhadledd yn Lisbon a fydd yn trafod materion yn ymwneud â chyflogaeth. Er nad oedd y Cynulliad yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â chyflogaeth yn uniongyrchol, byddai Cymru'n dymuno mynegi barn. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ysgrifennu at y ddwy weinyddiaeth arall a ddatganolwyd er mwyn asesu sut allen nhw a'r Cynulliad gyfrannu at bapurau Llywodraeth y DU ar gyfer yr uwchgynhaledd yn Lisbon.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Y Gynhadledd Ryng-Lywodraethol**
**Papur: EUR-01-00(p.8W)**

8.1 Mae rhan helaeth o’r agenda ar gyfer y Gynhadledd Ryng-Lywodraethol yn ymwneud â sicrhau bod y Comisiwn yn gallu gwasanaethu hyd at 27 aelod yn effeithiol. Nid yw’r goblygiadau i Gymru yn debygol o fod yn rhai uniongyrchol. Mae posibilrwydd y bydd y Gynhadledd yn trafod materion megis maint y Senedd Ewropeaidd a Phwyllgor y Rhanbarthau. Roedd y mecanwaith yn ymwneud â chyfraniad Cymru yn y Gynhadledd ac ar gyfer cynrychiolaeth llywodraethau rhanbarthol mewn dirprwyaethau cenedlaethol wedi cael ei ddiffinio gan y Concordat ynglþn â materion polisi'r UE sy'n bodoli rhwng y Cynulliad a'r Swyddfa Dramor. Golyga hyn bod y Cynulliad yn derbyn gwybodaeth ynglþn â datblygiad barn y DU, ond llywodraeth y DU fydd yn dod i gytundeb. Mae dosbarthiad seddau'r DU yn Senedd Ewrop yn fater i Lywodraeth y DU. Roedd Deddf Seneddol yn darparu seddau i Gymru ar sail maint ei hetholaeth.

8.2 Teimlai'r aelodau fod nifer o feysydd yn bodoli lle'r oedd hi'n bwysig bod y Cynulliad yn cael cyfrannu atynt, heblaw am nifer yr ASEau i Gymru. Er enghraifft, roedd diwygio Llys Iawnderau Ewrop yn arwyddocaol oherwydd yr amser y mae'n cymryd ar hyn o bryd i ddod i benderfyniadau ynglþn ag achosion (o leiaf 2 flynedd). Gallai newid y trefniadau ynglþn â dod i benderfyniadau ar y cyd gael effaith bwysig ar faterion Cymreig hefyd yn ogystal â'r cynnig i ymestyn y drefn bleidleisio gan fwyafrif cymwys (yn enwedig ar gyfer materion diwylliannol). Roedd cynigion hefyd i newid y trefniadau presennol lle mae Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn ystyried materion yn ymwneud â deddfwriaeth, a fyddai'n atal unrhyw rai nad ydynt yn wleidyddion rhag cyfrannu.

8.3 Dywedodd yr Aelodau nad oedd 'Ewrop' yn ennyn diddordeb y boblogaeth rhyw lawer, a'i fod yn cael ei ystyried fel sefydliad sy'n achosi problemau yn hytrach na

sefydliad sy'n eu datrys neu'n darparu cymorth. Awgrymwyd y dylid trefnu 'sioe deithiol' i godi ymwybyddiaeth o faterion Ewropeaidd, er y byddai angen cadarnhau a oedd gan y Cynulliad bwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i drefnu digwyddiad o'r fath. Gofynnwyd i'r swyddogion ddarparu cyngor ynglþn â hyn.

8.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried pa faterion yr oeddent yn dymuno eu codi yn ystod y trafodaethau â Llywodraeth y DU. Cytunwyd y dylid hysbysu'r Swyddfa Dramor o safbwyntiau'r Cynulliad ynglþn â'r nifer o ASEau i Gymru; pa mor gymwys ac effeithlon yw Llys Iawnderau Ewrop; a phleidleisio gan fwyafrif cymwys ynglþn â materion diwylliannol.

**Eitem 9 ar yr Agenda: Y Goblygiadau a'r Cyfleoedd i Gymru o ganlyniad i Ehangu'r Undeb Ewropeaidd**
**Papur: EUR-01-00(p.9W)**

9.1 Nododd yr aelodau fod goblygiadau ehangu'r Undeb yn ymestyn y tu hwnt i'r pwnc yn ymwneud â chostau llafur is mewn aelod-wledydd newydd, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ddenu buddsoddiadau diwydiannol. Gallai newidiadau yn y farchnad, parhad 'hen' ddiwydiannau a'r galw tebygol i ddarparu cymorthdaliadau (yn enwedig ar gyfer amaethyddiaeth) gael goblygiadau arwyddocaol i Gymru. Fodd bynnag, gan bod yr ehangu yma'n debygol o ddigwydd rhwng 2002 a 2010, roedd amser ar ôl o hyd i weithio ar y materion hyn.

9.2 Ni fyddai'r ehangu yn arwain at newidiadau economaidd yn unig. Nododd Catherine Eva fod yr aelodau newydd arfaethedig o wledydd Mwslemaidd neu wledydd a arferai fod yn rhai comiwnyddol yn bennaf, a byddai hyn yn cael effaith syfrdanol ar wleidyddiaeth, diwylliant a datblygiad yr UE. Nododd yr aelodau fod y pwnc yn un llawer rhy eang i'w ystyried fel un eitem ar yr agenda. Dyma'r rheswm dros ei ddewis fel un mater i'w ystyried yn y Fforwm Ewropeaidd nesaf a byddai'n cael ei gynnwys ar agendâu'r Pwyllgor yn y dyfodol hefyd. Byddai adroddiad gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru ynglþn â goblygiadau'r ehangu yn cael ei gyhoeddi'n fuan, a gellid ei ystyried yn ystod y cyfarfod nesaf.

**Eitem 10 ar yr Agenda: Cynlluniau ar gyfer y Fforwm Ewropeaidd nesaf**
**Papur: EUR-01-00(p.10W)**

10.1 Y bwriad oedd cynnal cyfarfod nesaf y fforwm ar y 12fed o fis Mai. Estynnwyd gwahoddiad i'r Arglwydd Leon Brittan fod yn Brif Siaradwr. Byddai'r Fforwm yn canolbwyntio ar yr Euro a'r ehangu (a byddai'n cynnwys gweithgorau ar yr eitemau hyn) ac ar Ymchwil a Datblygu hefyd. Byddai'r Fforwm dilynol yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru yn ystod yr Hydref.

10.2 Nododd yr Aelodau mai'r 12fed o fis Mai oedd dyddiad cyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol hefyd, a fyddai'n cael ei gynnal yn Wrecsam, felly cytunodd yr aelodau i ystyried a ddylid newid y dyddiad. Awgrymwyd hefyd y byddai sicrhau bod gwybodaeth ynglþn â benthyciadau gan y Banc Buddsoddi Ewropeaidd ar gael yn y Fforwm yn ysgogi cynrychiolwyr o fyd busnes i fynychu'r digwyddiad.

**Eitem 11 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EUR-03-99(minW)**

11.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

11.2 Hysbyswyd yr Aelodau bod y Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd yn cynnal arddangosfa yn safle ymgynnull y Cynulliad.

11.3 Dywedodd Rose D'Sa fod dogfen o'r enw 'Arolwg Strategol o Gyfreithiau Ewrop' wedi cael ei chyhoeddi'n ddiweddar ar gyfer busnesau. Byddai hi'n sicrhau bod copïau ohoni ar gael i'r Pwyllgor trwy gyfrwng yr Ysgrifenyddiaeth.

11.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

11.5 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 18 Mai.